

# Casnewydd

## Amdiffynfeydd presennol a'r tebygolrwydd o lifogydd

Mae tua 3,700 o eiddo yn elwa ar hyn o bryd o amddiffynfeydd llanw presennol.


Mae seilwaith pwysig a ddiogelir yn cynnwys llinellau trawsyrru trydan, prif lwybrau trafndiaeth, gorsaf bŵer a doc Casnewydd.

Mae gan y rhan fwyaf o eiddo berygl llifogydd llanw o 1 siawns mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn.

Ar hyd Afon Wysg mae argloddiau pridd ac waliau. Nid yw'r rhan fwyaf o'r amddiffynfeydd hyn na thir a godwyd ar gyfer datblygiadau newydd yn perthyn i Asiantaeth yr Amgylchedd.

Er bod rhai o'r amddiffynfeydd presennol wedi eu hadeiladu i fyny'n anffurfiol dros y blynyddoedd, gallant gael eu cynnal a'u gwella yn ôl y galw.

Mae rhannau byrion o'r amddiffynfa ger y Bont Gludo a maent ar lefel anghyson a mewn cyflwr cymharol wael.



## Nodyn ar godiad yn lefel y môr

Mae senario allyriadau canolog UKCP09 yn rhagweld codiad yn lefel y môr o 0.1m erbyn 2030, tua 0.3m erbyn 2060 a 0.7m erbyn 2110.

Ar hyn o bryd mae lefel y môr yn codi rhyw 2 i 2.5mm y flwyddyn. Os bydd y gyfradd hon yn parhau yna byddai codiad yn lefel y môr yn llai na'r hyn a ragamcanwyd gan y senario allyriadau canolog UKCP09.

## Beth ellir ei wneud?

Byddwn yn parhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at ddiogelwch gwell rhag llifogydd, fel sydd wedi digwyddod y ddiweddar yng Nghanol y Ddinas.

Ein bwriad yw gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd a busnesau lleol i wneud gwelliannau i'r rhannau gwanaf o'r amddiffynfeydd ger y Bont Gludo yn y 5-10 mlynedd nesaf.

Byddai hyn yn sicrhau bod y siawns o lifogydd llanw yn aros ar 1 mewn 200 neu lai mewn unrhyw flwyddyn ac yn gyson ar draws yr ardal hon.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) – Datblygu a Pherygl Llifogydd.

## Sut y penderfynwyd ar y cynigion hyn

Mae achos economaidd gref dros wella amddiffynfeydd os bydd y perygl llifogydd yn cynyddu.